Ysgol Gyfun Cwm Rhondda
*Heol Graigwen*
*Cymer*
*Porth*
*Rhondda Cynon Taf*
*CF39 9HA*
*(01443) 680800* *swyddfa@ygcwmrhondda.cymru*

16 Gorffennaf 2020.

Annwyl Riant/Gwarchodwr,

Ar ddiwedd blwyddyn ysgol hynod anghyffredin ac unigryw, hoffwn ddiolch yn ddidwyll i chi fel teuluoedd am eich cefnogaeth i'ch plant ac i ninnau fel cymuned ysgol unwaith eto eleni.

Mae 2020 wedi bod yn flwyddyn anodd a heriol i drigolion Cwm Rhondda. Fe ddaeth y llifogydd â phroblemau a chaledi ar ddechrau'r flwyddyn, ac yna ychydig wedi hynny, fe ddaeth Covid-19 i'n taro. Pe na bai hynny'n ddigon, cafwyd ail don o lifogydd gan rai teuluoedd.

Mae hi wedi bod yn flwyddyn wahanol ond fe lwyddon ni fel cymuned i gydweithio er mwyn goresgyn rhwystrau a sicrhau'r gorau ar gyfer ein pobl ifainc a'u teuluoedd. Diolch yn ddidwyll i chi gyd am eich rhan yn sicrhau hynny.

**Ffarwelio â disgyblion Blwyddyn 11 a Blwyddyn 13.**

Yn anffodus, fe gollon ni'r cyfle ar gyfer ffarwelio'n swyddogol gyda disgyblion Blwyddyn 11 a Blwyddyn 13 sy'n ein gadael eleni. Roedd hwn yn ddiwedd annisgwyl i'w gyrfa ysgol ac rydym yn ymwybodol bod disgyblion a staff yn siomedig. Unwaith y byddwn yn gallu cynnal digwyddiadau torfol, fe fyddwn yn gwahodd y disgyblion a chithau fe rhieni yn ôl i'r ysgol ar gyfer seremoni ffarwelio. Yn y cyfamser, rydym yn diolch i'r holl ddisgyblion am eu cyfarniadau lu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol ac yn dymuno'n dda iddynt ar gyfer y dyfodol. Bydd drysau Ysgol Gyfun Cwm Rhondda wastad ar agor iddyn nhw ac i chithau fel rhieni a rydym yn mawr obeithio y byddwch yn cadw cyswllt gyda ni fel ysgol. Fe fyddwn fel ysgol yn dilyn llwyddiannau'r disgyblion wrth iddynt symud ymlaen at y cam nesaf yn eu bywyd.

**Ail-agor yr ysgol Mehefin 29ain.**

Mae llawer o ddisgyblion wedi mynychu'r ysgol ers Mehefin 29ain ac, er gwaetha'r cyfyngiadau arnom fel ysgol, fe lwyddon ni i osod y disgyblion ar ben ffordd ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu dysgu. Roedd hi mor braf eu gweld. Rydym yn eu llongyfarch am eu positifrwydd a'u gwytnwch wrth iddynt ddychwelyd i amgylchiadau go wahanol.

Fe weithiodd rhai disgyblion o adref yn ystod y cyfnod ail agor ac rydym yn diolch i chi fel rhieni am sicrhau bod eich plant wedi ymrwymo i'r ddarpariath dysgu o hirbell. Mae'r ffordd y mae'r disgyblion wedi wynebu heriau dysgu newydd yn ystod y cyfnod clo yn destun balchder i ni fel ysgol.

Mae'r ysgol yn cau eleni ar Orffennaf 17eg ac ni fyddwn yn disgwyl i ddisgyblion ymgymryd â gwaith yn ystod gwyliau'r haf. Ni fydd athrawon yn cyfddydio'r ddarpariaeth ar Google Classrooms yn ystod y cyfnod hwn ac ni fydd disgwyl iddynt ddarparu adborth chwaith.

Mae'n hynod bwysig bod disgyblion a staff yn cael cyfle i adfer egni yn ystod gwyliau'r haf er mwyn bod yn barod ar gyfer heriau newydd fis Medi. Fodd bynnag, os yw disgyblion yn dymuno ymgymryd ag ambell dasg er mwyn atgyfnerthu'u dysgu blaenorol, mae yna ddigon o adnoddau ar Google Classrooms ar eu cyfer. Cofiwch fod yna ddarpariaeth eang o ran gweithgareddau lles ar ein gwefan ysgol ac ar Trydar Lles. Mae'n holl bwysig bod disgyblion yn manteisio ar y gweithgareddau hyn er mwyn sicrhau cydbwysedd iach yn eu bywyd bob dydd.

**Diwrnod Canlyniadau 2020.**

**Fe fydd yr ysgol ar agor ar gyfer canlyniadau eleni.** Fe fydd canlyniadau yn cael eu dosbarthu ar **Awst 13eg** ar gyfer disgyblion **UG/SU** ac **Awst 20fed** ar gyfer disgyblion **TGAU.**

Mae diwrnodau dathlu canlyniadau yn ddyddiadau hynod bwysig yn ein calendr ysgol ac rydym yn ymfalchio yn y ffaith ein bod yn medru dod ynghŷd fel cymuned i gyd ddathlu gyda'n pobl ifainc a'u teuluoedd.

Yn anffodus eleni, fe fydd yr amgylchiadau yn wahanol. O ganlyniad i reolau cymdeithasol, ni fydd yn bosib i ni ganiatau i ddisgyblion a'u teuluoedd ddod ynghŷd yn y ffordd arferol. Er mwyn lleihau'r niferoedd ar dir yr ysgol, rydym yn gofyn yn garedig i rieni **beidio â** dod i gasglu'r canlyniadau gyda'u plentyn. Fe fyddwn yn gweld at drefniadau parcio penodol ar eich cyfer.

Fe fyddwn yn gweithredu system rota i ddisgyblion ar gyfer casglu canlyniadau ac **rydym yn gofyn yn garedig i ddisgyblion lynu wrth yr amseroedd hyn**. Fe fydd amserlen bersonol drwy neges destun yn eich cyrraedd fel rhieni er mwyn i chi allu rhannu gyda'ch plentyn ar ddechrau'r wythnos **Awst 3ydd.**

Fe fyddwn hefyd yn anfon manylion atoch o ran ein darpariaeth parcio a manylion ar gyfer ein disgyblion o safbwynt dilyn rheoliadau Iechyd a Diogelwch wrth symud o gwmpas yr ysgol.

Mae hwn wedi bod yn benderfyniad anodd i ni fel ysgol, ac rydym yn mawr obeithio eich bod yn deall ac yn cefnogi ein penderfyniad i flaeoriaethu Iechyd a Diogelwch wrth fynd ati i drefnu ar gyfer y diwrnodau hyn.

**Adroddiadau Haf 2020.**

Bydd pob disgybl ysgol yn derbyn adroddiad drwy'r post ar ddiwedd y flwyddyn academiadd. Fe fydd yr adroddiad hwn eleni yn seiliedig ar sylwadau'r tiwtor dosbarth yn bennaf ac yn canolbwyntio ar rinweddau personol y disgybl a'i sgiliau cyffredinol.

**Y flwyddyn academaidd newydd – Medi 2020**

Yn dilyn cyhoeddiad y Gweinidog Addysg yn ddiweddar ynglŷn â threfniadau ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd, fe'ch hysbyswyd o'n cynllun ar gyfer symud tuag at gael bob dysgwr yn ôl yn yr ysgol erbyn Medi'r 14eg:

| Wythnos 1 / Week 1 | | |
|---|---|---|
| **Dydd Llun / Monday** | 31/08/20 | Gwyliau Haf / Summer Holidays |
| **Dydd Mawrth / Tuesday** | 01/09/20 | Diwrnod Cynllun Adfer COVID-19 Recovery & Planning Day |
| **Dydd Mercher / Wednesday** | 02/09/20 | Diwrnod Cynllun Adfer COVID-19 Recovery & Planning Day |
| **Dydd Iau / Thursday** | 03/09/20 | Blynyddoedd / Years 7,12 |
| **Dydd Gwener / Friday** | 04/09/20 | Blynyddoedd / Years 7,11,12,13 |

| Wythnos 2 / Week 2 | | |
|---|---|---|
| **Dydd Llun / Monday** | 07/09/20 | Blynyddoedd / Years 7,11,12,13<br>+ Blwyddyn 9 / Year 9 |
| **Dydd Mawrth / Tuesday** | 08/09/20 | Blynyddoedd / Years 7,9,11,12,13 |
| **Dydd Mercher / Wednesday** | 09/09/20 | Blynyddoedd / Years 7,9,11,12,13<br>+ Blwyddyn 10 / Year 10 |
| **Dydd Iau / Thursday** | 10/09/20 | Blynyddoedd / Years 7,9,10,11,12,13<br>+ Blwyddyn 8 / Year 8<br>*(Pob blwddyn ysgol / Every year group)* |
| **Dydd Gwener / Friday** | 11/09/20 | Pob blwddyn ysgol / Every year group |

Rwy'n siwr eich bod yn gwerthfawrogi bod hon yn sefyllfa gyfnewidiol iawn, ac efallai y bydd angen i ni addasu'r wybodaeth hon yn dibynnu ar gyngor y Gweinidog Addysg fis Awst.

Er y bydd pob dysgwr yn dychwelyd i'r ysgol erbyn Medi 14eg, ni fydd normalrwydd fel ag y bu cyn y pandemig. Fodd bynnag, fe erys ein hegwyddor o wneud ein gorau glas dros eich plentyn ym mhob agwedd o'i fywyd ysgol. Fe fydd ein gofal, cefnogaeth, a'n cymhelliant yn parhau o'r safon uchaf ac fe wnawn bopeth er mwyn hyrwyddo lles pob plentyn, law yn llaw gyda chefnogi eu hanghenion fel dysgwyr.

Fe fydd yna addasiadau i amserlen eich plentyn, ond fe fyddwn yn cynnig yr un ddarpariaeth ond hynny mewn ffordd wahanol. O ganlyniad i addasiadau i'n hadeilad ysgol ar sail Iechyd a Diogelwch a chyngor ynglŷn â chadw disgyblion o fewn grwpiau 'cyswllt' penodol, fe fydd grwpiau penodol yn cael eu haddysgu mewn un man penodol am yr hanner tymor cyntaf. Fe fydd ein llythyr ym mis Awst yn amlinellu'r newidiadau hyn ac yn amlinellu'r ddarpariaeth yn llawn.

**Presenoldeb.**

Mae'n ofynnol i bob disgybl fynychu'r ysgol o fis Medi ymlaen oni bai bod ganddynt reswm meddygol dros beidio â gwneud hynny.

**Trafnidiaeth**

Dyma'r trefniadau cyrraedd a gadael yr ysgol am gyfnod o fis Medi ymlaen:

*Trefniadau'r Bore*

| | |
|---|---|
| **Bysiau yn cyrraedd yr ysgol** | **8.20 – 8.40am** |
| **Ceir yn cyrraedd yr ysgol** | **8.45 – 9.00am** |
| **Cerddwyr yn cyrraedd yr ysgol erbyn** | **9.00am** |

*Trefniadau'r Prynhawn*

| | |
|---|---|
| **Bysiau yn gadael yr ysgol** | **2.00pm** |
| **Ceir yn cyrraedd i gasglu eu plant** | **2.15pm** |
| **Cerddwyr yn gadael yr ysgol erbyn** | **2.00pm** |

Fodd bynnag, am yr hanner tymor cyntaf, os ydych mewn sefyllfa i wnued hynny, gofynnwn yn garedig i chi wneud trefniadau amgen ar gyfer eich plentyn, ac i'ch plentyn deithio ar y bws **os nad oes ganddo unrhyw fodd arall** o gyrraedd yr ysgol. Mae hyn er mwyn ceisio lleihau'r niferoedd sy'n teithio ar fws.

**Gorchudd Wyneb**

Ein dealltwriaeth ar hyn o bryd yw y disgwylir i ddisgyblion wisgo gorchudd wyneb wrth deithio ar fysiau o fis Medi. Rydym yn aros am fwy o wybodaeth ynglŷn â hyn ac fe fyddwn yn rhannu gwybodaeth bellach yn ein llythyr atoch fis Awst.

**Prydau Ysgol**

Er mwyn ceisio osgoi gorgyffwrdd rhwng gwahanol grwpiau cyswllt, rydym yn gofyn yn garedig i chi sicrhau bod pecyn bwyd a diod gan eich plentyn am y pythefnos cyntaf. **Ni fydd disgyblion yn cael gadael tir yr ysgol er mwyn prynu bwyd.**

Fe fydd pecyn bwyd ar gael yn ddyddiol ar gyfer disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim.

**Mae'n trefniadau bwyd yn cael eu hadolygu ar ddechrau'r flwyddyn academiadd newydd.**

O ganlyniad i reoliadau iechyd fydd dim modd talu gydag arian parod yn yr ysgol o gwbl, felly gofynnwn yn garedig i chi ddefnyddio system taliadau ar-lein yr awdurdod. Sicrhewch eich bod wedi cofrestru i ddefnyddio'r system drwy ymweld â'r wefan drwy'r ddolen isod:

**https://www.civicaepay.co.uk/RhonddaEstore/estore/default/Account/Login?ReturnUrl=%2FRhonddaEstore%2Festore%2Fdefault%2FHome%2FIndex**

Fe fyddwn yn ymgymryd â threfniadau arbennig ar gyfer sicrhau bod disgyblion Blwyddyn 7 yn ymgyfarwyddo â'r drefn hon fis Medi.

**Grantiau Gwisg Ysgol**

Hoffwn eich hatgoffa hefyd am y grantiau gwisg ysgol sydd ar gael i rai disgyblion fydd yn cychwyn ym Mlynyddoedd 7 a 10 ym mis Medi Gweler y ddolen isod am ragor o fanylion.

https://llyw.cymru/grant-datblygu-disgyblion-mynediad

**DYDDIADAU HMS 2020-2021**

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn hefyd i rannu gyda chi ddyddiadau arfaethedig ein diwrnodau HMS ar gyfer y flwyddyn:

| | | |
|---|---|---|
| **Mawrth / Tuesday** | **1/9/2020** | Diwrnod Cynllun Adfer COVID-19 Recovery & Planning Day |
| **Mercher / Wednesday** | **2/9/2020** | Diwrnod Cynllun Adfer COVID-19 Recovery & Planning Day |
| **Gwener / Friday** | **6/11/2020** | HMS / INSET 1 |
| **Gwener / Friday** | **4/12/2020** | HMS / INSET 2 |
| **Llun / Monday** | **4/1/2021** | HMS / INSET 3 |
| **Mercher / Wednesday** | **16/6/2021** | HMS / INSET 4 |
| **Llun / Monday** | **19/7/2021** | HMS / INSET 5 |
| **Mawrth / Tuesday** | **20/7/2021** | HMS / INSET 6 |

Cyn i'r ysgol ail agor ar Fehefin 29ain eleni, fe dderbynioch fel rhieni wybodaeth gynhwysfawr ynglŷn â gwahanol agweddau o fywyd ysgol er mwyn gallu paratoi'ch plentyn yn llawn ar gyfer dychwelyd.

**Ar hyn o bryd, rydym wedi darparu'r wybodaeth gyfredol sy'n bosib i ni ei rhannu. Fel y nodwyd eisoes, fe allai hyn newid yn ddibynnol ar y sefyllfa gymdeithasol ac felly fe fyddwn yn cyfddyddio'r wybodaeth wrth iddi ein cyrraedd ni.**

Fe wynebwn yr heriau cymdeithasol ac addysgol o'n blaenau yn ôl ein harfer yn Ysgol Gyfun Cwm Rhondda fel un tîm.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus a'ch amynedd yn ystod y cyfnod cyfnewidiol hwn.

Dymuniadau da i bob un ohonoch dros wyliau'r haf. Cadwch yn ddiogel.

Edrychwn ymlaen yn fawr at groesawu ein holl ddisgyblion yn ôl fis Medi, ac rydym yn edrych ymlaen hefyd at estyn croeso arbennig i ddisgyblion newydd Blwyddyn 7 fel aelodau o deulu Ysgol Gyfun Cwm Rhondda.

Yn ddidwyll,

Sara Elise Jones

(Pennaeth Dros Dro)